

**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned Nos Lun, Mai 22ain 2017 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: D Gwynfor Davies

Preseanol: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, Gwyn Williams, Einir Williams, Cyngh Garffild L Lewis a'r Clerc.

Aelodau o'r cyhoedd: Medwyn a Sarah Thomas

66.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Gwydion Jones a Gwyn Williams gysylltiad ag eitem Cynllunio 12c ac Einir Williams ag eitem Cynllunio 12a.

66.2 ARWYDDO DATGANIAD DERBYN SWYDD – arwyddodd yr aelodau'r llyfr.

66.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 26ain Ebrill 2017 a'u pasio'n gywir.

66.4 MATERION YN CODI

66.4.1 BLODAU CYNGOR CONWY – adroddodd y Clerc bod swyddog o'r Cyngor wedi cytuno i lenwi'r tybiau blodau eleni. Dywedodd Ann Vaughan y byddai'n tynnu'r bylbiau o dybiau Llangernyw.

66.4.2 MAES CLEDWEN, GWYTHERIN – y Clerc heb glywed gan Gartrefi Conwy. Angen gofyn iddynt beth yw geiriad y cymal sydd yng nghytundeb gwerthu'r tŷ.

66.4.3 YSWIRIANT – PENDERFYNWYD yn unfrydol i yswirio gyda AON am £380.20

66.4.4 CYNGHORWYR YN YMDDEOL – penderfynwyd anfon gair o ddiolch at y cyn aelodau Ian Griffith, Gerwyn Davies ac Ifor Edwards.

66.5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Diolchodd y Cadeirydd Gwydion Jones i bawb am eu hamynedd, eu cefnogaeth ac i bawb am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Diolchodd am y cyfle i fod yn Gadeirydd. Cafwyd colled fawr ar ddechrau'r flwyddyn ym marwolaeth y Cynghorydd Tecwyn Evans ond cyfetholwyd Einir Williams yn ei le sydd gyda'r un brwdfrydedd dros yr ardal. Nododd bod y Toiledau Cyhoeddus yn dal ar yr Agenda. Bu Etholiad yn ddiweddar – mae nifer y cynghorwyr ar y Cyngor wedi eu cwtdgi o unarddeg i ddeg (un yn llai ym Mhandy Tudur) ac mae angen cyfethol dau i seddau gwag yn Llangernyw. Croesawodd y Cynghorydd Garffild Lewis, cynrychiolydd newydd yr ardal ar y Cyngor Sirol a'i longyfarch ar gael ei ethol gan edrych ymlaen at gydweithio.

66.6 ETHOL CADEIRYDD – etholwyd Gwyn Williams yn Gadeirydd y Cyngor. Daeth Gwyn Williams i'r gadair a diolchodd i'r Cyn-Gadeirydd am ei waith ar hyd y flwyddyn.

66.7 ETHOL IS-GADEIRYDD – enwebwyd Einir Williams yn Is-Gadeirydd a derbyniodd y swydd.

66.8 ETHOL AELODAU AR IS-BWYLLGORAU – penderfynwyd i ethol aelodau pan fydd aelodau newydd wedi eu cyfethol. Etholwyd y canlynol dros dro – Pwyllgor Mynwentydd – Ann

Vaughan, Pwyllgor Llwybrau – Diane Roberts. Pwyllgor Cylchlythyr – Elen Edwards, Gwyn Williams ac Emlyn Williams.

#### 66.9 CYNRYCHIOLYDD AR BWYLLGORAU ALLANOL

Pwyllgor Rhanbarth Un Llais – Diane Roberts ac Elen Edwards. Amgueddfa'r Cwm – Gwyn Williams (Cadeirydd). Penderfynwyd i ddewis cynrychiolydd ar bwyllgor y Ganolfan ar ôl llenwi'r seddi gwag.

66.10 SEDDI GWAG YN WARD LLANGERNYW – rhybudd wedi ei arddangos yn gwadd enwebiadau. PENDERFYNWYD i ymgeiswyr ysgrifennu llythyr (dim mwy na 300 o eiriau) yn cyflwyno eu hunain ac esbonio eu diddordeb cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

66.11 CYFARFOD SAFLE GYDA MR WIL ROBERTS YNGLŶN AG ARWYDDION BROWN TWRISTIAETH – cafwyd cyfarfod safle yn Llangernyw ddydd Llun 8fed Mai gyda Diane Roberts, Elen Edwards a Gwydion Jones. Derbyniwyd ebost gan Mr Wil Roberts yn dilyn y cyfarfod. Wedi ei drafod penderfynwyd gofyn iddo ail ystyried lleoliad yr arwydd ger Cymerau ac y byddai'n well ei osod wrth y Felin wrth ddod i mewn i'r pentref. Hefyd roedd yn pwysleisio y byddai'r gost tua £2800. Penderfynwyd gofyn i Mr Steve Teale a fyddai modd talu am yr arwyddion fel yr addawyd.

66.12 PONTYDD HENDRE DDU A DYFFRYN GALL – cafwyd adroddiad ynglŷn a'r pontydd. Roedd oedi wedi bod gyda phont Hendre Ddu oherwydd bod BT heb dynnu polion o'r safle. Mynegwyd bod gwaith Pont Afon Dyffryn Gall yn costio £226,679.49 ac bod swm tendr Pont Hendre Ddu yn £259,269.97 a bod y gwaith wedi ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd i ofyn pryd byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau ar bont Dyffryn Gall.

66.13 SCIPIAU CYMUNEDOL – roedd scip Gwytherin wedi llenwi yn fuan iawn ac nid oedd y swyddog yn ymwybodol o'r rheolau beth gellir ei roi yn y scip. Bydd angen gofalu bod rheolau'r tro nesaf.

66.14 RHEOLIADAU ARIANNOL DIWYGIEDIG – PENDERFYNWYD i dderbyn y Rheoliadau newydd a'u harwyddo a diolchwyd i'r is-bwyllgor am eu gwaith yn eu paratoi.

#### 66.15 MATERION CYNLLUNIO

66.15.1 Cais Rhif 0/43937 Gosod 6 caban gwersylla a gwaith datblygu cysylltiedig ar dir yn Cefn Ffynnon, Pandy Tudur gan Mr & Mrs S Thomas – gadawodd Einir Williams y cyfarfod. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais ac i nodi ein bod yn credu ei bod yn angenrheidiol i amaethyddiaeth arallgyfeirio, bod Cyswllt Ffermio yn cefnogi a bod angen datblygiadau fel hyn neu ni fydd cefn gwlad ar ôl.

66.15.2 Cais Rhif 0/43940 Codi adeilad amaethyddol (cymeradwyaeth amaethyddol blaenorol) yn Tan y Graig, Llangernyw gan Mr Dewi Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

66.15.3 Cais Rhif 0/43965 Gwifren drydan uwchben 11kv, newid defnydd o wasanaeth i brif linell (Ôl-weithredol) yn Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw gan SP Energy Networks – gadawodd Gwydion Jones a Gwyn Williams y cyfarfod. Daeth Einir Williams i'r gadair. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais ond i nodi ei fod yn ôl-weithredol eto.

66.16 CWRS UN LLAIS – CYLLID LLYWODRAETH LEOL - Cafwyd adroddiad gan Diane Roberts o'r cwrs. Cyfeiriodd at Bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor; y flwyddyn nesaf bydd yr archwilyr yn edrych ar Gôd Ymddygiad a PAYE. Dylem roi rhestr i'r archwilydd mewnol beth

yw'r gofynion. Adroddodd Elen Edwards bod trafodaethau ymlaen i weld a oes posibil archwilio yn fewnol o fewn siroedd. Cyfeiriwyd at 'asesiad risg' ac i holi Un Llais am hyn.

66.17 GOFAL CARTREF CBSC – deallir bod trafodaeth ymlaen. Penderfynwyd i anfon copi o lythyr y Gwasanaethau Cymdeithasol at yr aelodau eto.

66.17 CYNNIG I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS – penderfynwyd ar eiriad ein cynnig: Rydym yn gofyn i Un Llais Cymru edrych ar y model o ofal cymdeithasol yng nghefn gwlad i sicrhau nad oes anghysondeb rhwng siroedd. (Esboniad – mae Cyngor B S Conwy (fel rhai awdurdodau eraill) yn talu i gwmnïau preifat wneud gwaith gofal cartref ac mae hyn wedi creu problemau e.e. newid staff yn aml – yn arbennig yng nghefn gwlad. Nid yw anghenion pobl hŷn a bregus yn cael eu parchu. Teimlwn bod anghenion cefn gwlad yn wahanol i'r trefi).

66.18 MABWYSIADU BLYCHAU FFÔN – angen i ni roi gwybod i Gonwy os oeddem yn mabwysiadu ac am wneud prosiect arbennig.

66.19 GRANT AR GYFER CYNLLUNIAU CHWARAE – roedd y dyddiad wedi ymestyn ac angen rhoi gwybod i'r Gymdeithas Chwaraeon.

66.20 MODEL BROTOCOL DATRYSIADAU LLEOL AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – i'w anfon i'r aelodau.

66.21 MATERION LLEOL

66.21.1 Angen holi a fedr y Cyngor Sir wneud lle parcio caled ar ochr y ffordd ger Canolfan Gwytherin.

66.21.2 Angen torri o gwmpas arwyddion diogelwch ffyrdd.

66.21.3 Gwrych wedi gordyfu – anodd gweld oherwydd coed ger cilfan Ainon.

66.21.4 Toiledau – Pwyllgor Menter Bro Cernyw wedi agor cyfrif banc erbyn hyn.

66.21.5 Pwyllgor Cylchlythyr – cyn y cyfarfod nesaf a phwyllgor swydd y clerch.

66.22 BILIAU

Canolfan Bro Cernyw (hurio)	£15
D Evans (Ail-doriad Mynwentydd)	£380
CVSC – Ymaelodi	£15

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion .Gwyn Williams..... Dyddiad ..28/6/17.....*

Annual General Meeting of the Community Council was held on Monday, May 22 2017 at 7.30 pm at Gwytherin Community Centre

Apologies: D Gwynfor Davies

Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Elen H. Edwards, Gwyn Williams, Eimir Williams, Cllr Garffild L Lewis and Clerk.

Members of the public: Medwyn and Sarah Thomas

66.1 DECLARATION - opportunity was given to members to declare an interest in an item on the Agenda. Gwydion Jones and Gwyn Williams declared interest in Item 12c Planning and Eimir Williams in item 12a Planning.

66.2 STATEMENT OF ACCEPTANCE OF OFFICE - members signed the book.

66.3 MINUTES - looked at 26th April 2017 minutes and recorded as true minutes.

#### 66.4 MATTERS ARISING

66.4.1 CONWY COUNCIL FLOWERS - The Clerk reported that an officer of the Council had agreed to fill the planters this year. Ann Vaughan said she would remove the bulbs from the Llangernyw tubs.

66.4.2 MAES CLEDWEN, GWYTHERIN - The Clerk had not heard from Cartrefi Conwy. Need to ask them about the wording of the clause in the agreement to sell the house.

66.4.3 INSURANCE - RESOLVED unanimously to insure with AON for £ 380.20

66.4.4 RETIREMENT OF COUNCILLORS - decided to send a word of thanks to the former members Ian Griffith, Gerwyn Davies and Ifor Edwards.

#### 66.5 CHAIRMAN'S REPORT

Gwydion Jones Chairman thanked everyone for their patience, support and everyone for their contribution during the year. He expressed thanks for the opportunity to be the Chairman. There was a major loss early in the year in the death of Councilor Tecwyn Evans but Eimir Williams was elected in his place who has the same enthusiasm for the area. He noted that the Public Toilets are still on the agenda. There has been a recent election - the number of members on the Council has been reduced from eleven to ten (one less for Pandy Tudur) and need to co-opt to fill two vacant seats in Llangernyw. Councillor Garffild Lewis, a new representative of the area on the County Council was welcomed and congratulated him on his election and looked forward to working together.

66.6 ELECTION OF CHAIRMAN - Gwyn Williams was elected Chairman of the Council. Gwyn Williams came to the chair and thanked the former Chairman for his work throughout the year.

66.7 ELECTION OF VICE CHAIR - Eimir Williams was nominated as Vice-Chairman and accepted the post.

66.8 ELECTION OF MEMBERS ON THE SUB-COMMITTEES - decided to elect members when new members are co-opted. The following were elected temporary - Cemetery Committee - Ann Vaughan, Footpaths Committee - Diane Roberts. Newsletter Committee - Elen Edwards, Gwyn Williams and Emlyn Williams.

66.9 EXTERNAL REPRESENTATIVE TO COMMITTEES

Regional Committee of One Voice - Diane Roberts and Elen Edwards. Cwm Museum - Gwyn Williams (Chairman). We decided to choose a representative on the Canolfan Bro Cernyw committee after filling the empty seats.

66.10 EMPTY SEATS IN LLANGERNYW WARD - notice is displayed inviting nominations. RESOLVED candidates to write a letter (max 300 words) introducing themselves and explaining their interest before the next Council meeting.

66.11 SITE MEETING WITH MR WIL ROBERTS RE BROWN TOURISM SIGNS – site meeting in Llangernyw on Monday May 8 with Diane Roberts, Elen Edwards and Gwydion Jones. Email received by Mr. Wil Roberts following the meeting. It was decided to ask him to reconsider location of the sign near Cymerau and it would be better placed near the Mill on entering the village. Mr Roberts stresses that the cost was around £2800. Decided to ask Mr Steve Teale if his department could pay for the signs as promised.

66.12 HENDRE DDU AND DYFFRYN GALL BRIDGES - there was a report about the bridges. There has been delays at Hendre Ddu bridge because BT hadn't removed poles from the site. It was reported by the council that the work on Dyffryn Gall Bridge cost £ 226,679.49 and that the tender amount for Hendre Ddu Bridge is £ 259,269.97 and that the work is partially funded by the Welsh Government. Decided to ask when the work would be completed on a Dyffryn Gall bridge.

66.13 COMMUNITY SKIPS - Gwytherin skip was full very soon and the officer did not know the rules regarding what could be placed in the skip. There should be better guidelines next time.

66.14 REVISED FINANCIAL REGULATIONS - RESOLVED to accept the new Regulations and sign and the Chairman thanked the subcommittee for their work in preparing them.

#### 66.15 PLANNING ISSUES

66.15.1 Application No. 0/43937 Installation 6 camping cabins and associated development on land at Cefn Ffynnon, Pandy Tudur by Mr & Mrs S Thomas - Einir Williams left the meeting. RESOLVED unanimously to support the application and to state that we believe it is necessary to diversify in agriculture, that Farming Connect supports the development and there should be diversification in the countryside.

66.15.2 Application No. 0/43940 Erection of agricultural building (agricultural previous approval) at Tan y Graig, Llangernyw by Mr Dewi Roberts - Decided unanimously to support the application.

66.15.3 Application No. 0/43965 Hotline 11kv overhead electric wire, the change of use of service to mainline (Retrospective) in Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw by SP Energy Networks - Gwydion Jones and Gwyn Williams left the meeting. Einir Williams became the chair. RESOLVED unanimously to support the application but to note that it is retrospective again.

66.16 ONE VOICE COURSE - LOCAL GOVERNMENT FINANCE - Diane Roberts reported on the course. She referred to the Welsh Language Policy of the Council; next year the auditors will look at the Code of Conduct and PAYE. The internal auditor should be provided with a list of the requirements. Elen Edwards reported that discussions are ongoing on a possibility that audit can be done internally within counties. Reference was made to a 'risk assessment' and to inquire about it with One Voice.

66.17 HOMECARE CCBC - it is understood that there were discussions . Decided to send a copy of the Social Services letter to members again.

66.17 PROPOSAL TO ANNUAL MEETING OF ONE VOICE WALES - decided on the wording of our proposal: We ask OVW look at the model of social care in rural areas to ensure that there is no discrepancy between the counties. (Explanation - Council Conwy CB (as some other authorities) pay private companies to carry out home care and this has created problems such as frequent staff changes - especially in the countryside. The needs of older and vulnerable people are not being respected. We feel that the needs of rural areas are different to towns).

66.18 ADOPTION OF TELEPHONE BOXES - we need to notify Conwy if we adopted and of our proposal for the kiosks.

66.19 GRANT FOR PLAYSCHMES - the date has extended and need to inform the Sport Association.

66.20 MODEL PROTOCOL LOCAL SOLUTIONS FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILS - to be sent to members.

#### 66.21 LOCAL ISSUES

66.21.1 Need to ask the County Council to make hard parking area on roadside near Gwytherin Community Centre.

66.21.2 Need to cut/trim around road safety signs.

66.21.3 Overgrown hedge - hard to see because of trees near Aion lay-by.

66.21.4 Toilets – Menter Bro Cernyw has successfully opened a bank account now.

66.21.5 Newsletter Committee - before the next meeting and the committee re clerk's post.

#### 66.22 BILLS

Canolfan Bro Cernyw (hire) £ 15

D Evans (Second cut to Cemeteries) £ 380

CVSC - Membership £ 15

The meeting ended at 9.30 pm.

Approved the Minutes Gwyn Williams..... Date. ..28/6/17.....